**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD DOSBARTH II B4319 ST DANIELS HILL, PENFRO) (DIDDYMU A FFORDD GYFYNGEDIG) 2022**

---

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud Gorchymyn o dan Adran 82, 83 ac 84 (1) a Rhan III a IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith hyn fydd dirymu'n rhannol y terfyn cyflymder o 40mya sy'n gymwys i'r darn hwnnw o'r ffordd a gynhwysir yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn, ac adfer statws ffordd gyfyngedig (terfyn 30mya yn gymwys).
Bydd y terfyn cyflymder is yn ymestyn i'r de heibio i'r lloches i gerddwyr/beicwyr sydd newydd ei hadeiladu ar St Daniels Hill.

Ceir manylion llawn yn y gorchymyn drafft, y gellir edrych arno ar-lein, ynghyd â map yn dangos y rhan o ffordd yr effeithir arni, yn https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-trraffig-ffyrdd

Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau mewn perthynas â'r cynigion uchod, ynghyd â'r seiliau dros eu gwneud, naill ai trwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein neu yn ysgrifenedig i'r islofnodedig erbyn y 3ydd diwrnod o fis Fawrth 2022. Dyfynnwch: ST DANIELS

Dyddiedig ar y 9fed diwrnod hwn o Chewfror 2022.

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro

**ATODLEN**

| **Ffordd** | **Hyd** |
|---|---|
| Ffordd Dosbarth II (B4319) St Daniels Hill | O'i chyffordd ag Orange Way i gyfeiriad deheuol am bellter o 243 metr. |


**<u>Datganiad o’r rhesymau:</u>**

Effaith y Gorchymyn fydd dirymu’r terfyn cyflymder presennol o 40mya sy'n gymwys i'r darn hwnnw o'r ffordd a gynhwysir yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn, ac adfer statws ffordd gyfyngedig (terfyn 30mya yn gymwys). Mae’r terfyn cyflymder is yn ymestyn heibio i loches newydd i gerddwyr ac yn rhan o’r cysylltedd cerddwyr/beicwyr ar draws St Daniels Hill.

# St Daniels Hill - Proposed 30mph

Map produced on: 31 January 2022

Scale (A4 Print)
1:2000




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD DOSBARTH II B4319 ST DANIELS HILL, PENFRO) (DIDDYMU A FFORDD GYFYNGEDIG) 2022**

---

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adran 82, 83 ac 84 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Bydd y darn o ffordd a nodir yn yr atodlen i'r Gorchymyn hwn yn dod yn ffordd gyfyngedig at ddiben Adran 81 o'r Ddeddf.

2. Mae Gorchymyn Sir Ddyfed (Ffordd Dosbarth II B4319 St Daniels Hill, Penfro) (Gorfodi Terfyn Cyflymder 40mya) 1994 yn cael ei ddiddymu i'r graddau y mae'n ymwneud â'r rhannau o'r ffordd a gynhwysir yn yr atodlen i hwn.

3. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Sir Benfro (Ffordd Dosbarth II B4319 St Daniels Hill, Penfro) (Diddymu a Ffordd Gyfyngedig) 2022" a daw i rym ar y ** diwrnod o fis *****, Dwy Fil a Dwy Fil ar Hugain.

**RHODDIR** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y ** diwrnod hwn o fis *****, Dwy Fil a Dwy ar Hugain.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR PENFRO**
ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig

**ATODLEN**

| **Ffordd** | **Hyd** |
|---|---|
| Ffordd Dosbarth III (B4319) St Daniels Hill | O'i chyffordd ag Orange Way i gyfeiriad deheuol am bellter o 243 metr. |

DRAFT